VICTIM SUPPORT

# GALLWCH CHI WNEUD GWAHANIAETH I FYWYDAU DIODDEFWYR

Gwirfoddolwch gyda ni

victimsupport.org.uk

## Pwy yw VS?

Rydym yn elusen annibynnol sy'n cynnig cymorth cyfrinachol am ddim i bobl y mae troseddau a digwyddiadau trawmatig yn effeithio arnynt.

Rydym yn cynorthwyo cannoedd o oedolion a phlant bob dydd i ymdopi ag effeithiau troseddau.

Mae ein timau arbenigol wedi cael hyfforddiant trylwyr a phrofiad helaeth o ddarparu cefnogaeth a gwybodaeth i bobl o bob cymuned, beth bynnag fo'r troseddau y maent wedi'u dioddef, pryd bynnag y digwyddodd, a ph'un ai yw'r heddlu'n gysylltiedig ai peidio.

Bob dydd ar hyd a lled Cymru a Lloegr, bydd ein gwirfoddolwyr yn rhoi yn hael o'u hamser mewn ffyrdd amrywiol er mwyn helpu pobl i symud ymlaen y tu hwnt i drosedd.

## Pam gwirfoddoli gyda ni?

- Byddwch chi'n cael cyfle i ddatblygu sgiliau a phrofiadau newydd, cwrdd â phobl newydd, helpu eich cymuned a dod i wybod mwy am droseddau, cyfiawnder troseddol a'r system gyfreithiol.
- Mae'r rhan fwyaf o'r rolau gyda ni yn hyblyg gydag opsiynau i roi amser yn ystod y dydd, gyda'r nos neu ar benwythnosau. Mae rhai gwirfoddolwyr yn rhoi nifer o oriau bob wythnos; mae rhai eraill yn helpu'n llai aml, gan ddibynnu ar y rôl y maent yn ymgymryd â hi.
- Byddwn ni'n rhoi'r hyfforddiant sydd ei angen arnoch chi a chostau y cytunir arnynt er mwyn i chi gyflawni'ch rôl.

## Pa gyfleoedd sydd i'w cael?

Mae nifer o ffyrdd gwahanol o gefnogi ein gwaith hollbwysig.

**Gwirfoddoli gyda phobl y mae troseddu'n effeithio arnynt**
Rydym yn chwilio am wirfoddolwyr dibynadwy sydd â sgiliau pobl gwych, sy'n gallu gwrando'n effeithiol a mynegbostio pobl at y wybodaeth a'r gwasanaethau sydd ar gael.

**Codi arian ac ymwybyddiaeth**
Os ydych chi'n teimlo'n angerddol ynglŷn â'n gwaith ac eisiau codi ymwybyddiaeth yn eich cymuned leol neu ganfod ffyrdd o ddenu cyfraniadau hollbwysig, cofrestrwch eich diddordeb heddiw!

**Darparu cefnogaeth swyddfa**
Yn aml, mae angen cefnogaeth weinyddol ar ein swyddfeydd ledled Cymru a Lloegr i'w helpu i redeg yn llyfn.

**Cyfrannwch eich sgiliau proffesiynol**
Gallech chi fod yn ddylunydd graffeg, yn rheolwr prosiectau neu'n rhywun sydd â'r sgiliau hyfforddi i ddatblygu gwirfoddolwyr eraill, ac mae'n bosib bod gennym brosiect y mae angen eich sgiliau arbenigol chi arno!

## Mae amrywiaeth o bwys ac rydym yn ei werthfawrogi

Rydym yn ymrwymedig i gefnogi anghenion y cymunedau amrywiol rydym yn eu gwasanaethu. Mae angen gwirfoddolwyr o bob oed ac o bob cefndir arnom i'n helpu i estyn llaw i bawb sydd mewn angen, beth bynnag fo'u hil, eu credoau, eu ffordd o fyw neu eu cefndir.

## Ble i fynd i gael cymorth:

Rydym yn elusen **annibynnol** sy'n cynnig cymorth **cyfrinachol am ddim** i bobl y mae troseddau a digwyddiadau trawmatig yn effeithio arnynt.

I gael gwybodaeth a chymorth, cysylltwch â ni drwy:

- ffonio: Supportline **08 08 16 89 111**
- defnyddio ein gwasanaeth sgwrsio byw 24/7: **victimsupport.org.uk/live-chat**
- defnyddio BSL: **victimsupport.org.uk/bsl**
- Ar-lein: **victimsupport.org.uk**

I gael gwybod sut gallwch chi'n helpu ni, ewch i **victimsupport.org.uk/get-involved**

**VictimSupport**

**victimsupport_uk**

**Linkedin.com/company/victim-support**

Cyhoeddwyd gan Victim Support
Llywydd EHB Y Dywysoges Frenhinol

Victim Support, Adeilad 3, Parc Busnes Dwyreiniol, Lôn Wern Fawr, Pentref Llaneirwg, Caerdydd CF3 5EA
Ffôn: 020 7268 0200

Cofrestriad elusen: 298028 Rhif cwmni: 2158780
Cofrestrwyd yn Lloegr. Cyfyngedig trwy warant.
Swyddfa gofrestredig fel uchod.

 © 2025 Victim Support